# Y SELAR

Rhif 70 // GWANWYN // 2026



MALI HÂF











y·selar
Rhif 70 // GWANWYN // 2026

# Golygyddol

Digon llwm ydy hi ar ddechrau blwyddyn yng Nghymru fach fel rheol ynde.

Bwrlwm y Nadolig wedi pasio, yr haf yn teimlo'n bell i ffwrdd, a'r tywydd yn ddigon diflas i ddweud y lleiaf!

Ond na phoener, mae'r gwanwyn o fewn golwg a'r dyddiau'n ymestyn. Ac mae 'na rifyn newydd sbon danlli o gylchgrawn Y Selar i'ch difyrru. Mae dathlu'n thema sy'n gyffredin yn y rhifyn hwn – yn bennaf oll wrth i ni gynnal dathliad cerddoriaeth Gymraeg mawr y flwyddyn, Gwobrau'r Selar. Byddwch yn ymwybodol bod y digwyddiad wedi dychwelyd i Undeb Myfrywyr Aberystwyth ar y tro cyntaf ers 2020, a'r parti'n un arall i'w gofio.

Mae'r rhifyn hwn hefyd yn dathlu degawd ers ffurfio un o fandiau mwyaf arwyddocaol cerddoriaeth Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, Alffa. Rydan ni'n dathlu llwyddiant cenedlaethol a rhyngwladol y band blŵgras o Gymru, Taff Rapids, ynghyd ag edrych ymlaen at recordiau newydd gan Mali Hâf ac Achlysurol. Cawn ddysgu mwy hefyd am ddau fand ifanc sy'n edrych ymlaen at wneud eu marc yn 2026.

A dyna grynhoi yr adeg yma o'r flwyddyn mae'n siŵr – cyfnod sy'n cwympo rhwng dwy stôl wrth i rywun hiraethu am y flwyddyn a fu ar y naill law, gan edrych ymlaen at yr hyn sydd i ddod ar y llall. A dyna'n union a gawn yn y rhifyn hwn o'r Selar.

***Owain Schiavone***

## cynnwys

| | |
|---|---|
| Sgwrs Sydyn: Achlysurol | 4 |
| Dafydd Owain yn Ymarfer Byw | 6 |
| Enillwyr Gwobrau'r Selar | 10 |
| 10 Uchaf Albyms 2025 | 12 |
| Sgwrs Sydyn: Mali Hâf | 14 |
| Newydd ar y Sin | 16 |
| Y Gornel Werin: Taff Rapids | 18 |
| Degawd o Alffa | 20 |
| Trac Wrth Drac: Blas Melysa'r Mis | 23 |

**Llun clawr**: Mali Hâf













**UWCH OLYGYDD** Owain Schiavone (yselar@live.co.uk)

**DIRPRWY OLYGYDD** Gruffudd ab Owain

**DYLUNYDD** Dylunio GraffEG (elgangriffiths@btinternet.com)

**HYSBYSEBION** yselar@live.co.uk

**CYFRANWYR**
Elain Gwynedd, Nel Thomas, Angharad Rhiannon

Ariennir Y Selar gan grant Cyngor Llyfrau Cymru.
Argraffwyd gan Y Lolfa.

@y_selar
facebook.com/cylchgrawnyselar
selar.cymru

Diolch yn fawr i gyfeillion Y Selar (aelodau Rheolwr a Prif Ganwr Clwb Selar): Ywain Gwynedd, I KA CHING, Antoni a Dawn Schiavone, Gruffydd Davies, Illtud Daniel, Pawlie, Gethin Griffiths, Betsan Evans.

Mae'r Selar yn cael ei ddosbarthu ledled Cymru gan y Mentrau Iaith. Cysylltwch â'ch Menter leol i fynnu eich copi.

Rhybudd - Defnyddir iaith gref mewn mannau.'

# Achlysurol

**Mae Achlysurol yn fand sy'n mynd o gwmpas eu busnes heb ormod o ffys ers ryddhau eu cynnyrch cyntaf yn 2018, ond bellach wedi adeiladu catalog cyfoethog o gerddoriaeth. Y newyddion da ydy eu bod nhw'n paratoi i ryddhau eu halbwm newydd yn y gwanwyn, felly bu Angharad Rhiannon yn holi mwy ar ran Y Selar.**



**I'r rhai sy ddim yn eich nabod chi'n barod, pwy ydych chi ac o ble dych chi'n dod?**
Helo, Achlysurol 'da ni! Band o ardal Gaernarfon. Aled Emyr dwi a fi sy'n canu ac yn chwara'r bas, Ifan Emyr (fy mrawd) sy'n chwarae dryms a'n ffrind Ifan Rhys Williams sy'n chwarae'r gitâr.

**Ers faint dych chi wedi bod yn Achlysurol?**
Dechreuon ni'r band yn 2017 dwi'n meddwl, dechrau gigio'n lleol. Nathon ni ryddhau ein sengl gyntaf yn 2018. Daeth ein halbwm cyntaf, sef Rhywle Pell, allan yn 2023.

**Dwi'n clywed bod gennych chi albwm newydd yn dod mas cyn bo hir. Be allwch chi ddweud wrthym ni am yr albwm?**
Oes, mae'r sengl gyntaf allan ers y chweched o Chwefror a'i henw ydi 'Pan Mae'r Haul yn Machlud'. Mae'r albwm yn wahanol i'r cyntaf, dipyn mwy o synau electronig, a'r offeryniaeth wedi newid ychydig. Mae 'na westai arbennig ar yr albwm. Mae Iwan Fôn yn perfformio ar ambell drac, Magi Tudur yn canu ar gwpwl o ganeuon ac Elis Derby'n chwarae ychydig o gitâr ar rai o'r traciau. Mi fydd yr albwm yn cael ei ryddhau o gwmpas mis Ebrill/Mai, ond mi fydd 'na gadarnhad o'r dyddiad yn fuan, so gwyliwch allan!

**Ers faint dych chi wedi bod yn gweithio ar yr albwm?**
Dwi'n meddwl nes i sgwennu'r gân gyntaf mis Hydref 2024 ar ôl gwylio'r ffilm Aftersun. Aethon ni i'r stiwdio am y tro cyntaf yng ngwanwyn 2025 at Rich Roberts yn Ferlas, Penrhyndeudraeth, a gorffen y broses recordio ddiwedd mis Tachwedd.

**Beth fyddai'r weithgaredd perffaith i gyd-fynd â gwrando ar yr albwm?**
Fysa hi'n un da i gadw cwmni i chi tra 'da chi'n dreifio ar hyd yr A470. Mae'r albwm tua 40 munud o hyd, felly sa chi'n gallu chwara hi o leia 6 gwaith ar y trip o Felinheli i Gaerdydd! Neu tra'n mynd a'r ci am dro ar hyd y traeth.

**Oes 'na stori tu ôl i'r enw Achlysurol?**
Nagoes! Dodda ni methu meddwl am enw! Pelinti odd enw ni am un gig. Ystyr Pelinti ydi – i symud bwyd o amgylch dy geg pan mae'n rhy boeth! Nath hwna ddim sticio! Ddoth Ifan i fyny efo'r enw Achlysurol a mi nath hwna sticio!

**Oes gennych chi hoff gân rydych chi'n hoffi perfformio?**
Da ni'n hoff o chwarae 'Rhywle Pell', mae na *feel* da i hona. Ond dwi'n edrych mlaen i berfformio'r caneuon newydd a gweld lle maen nhw'n ffitio yn y set a gweld sut ymateb maen nhw'n gael.

**Pa fath o bethau sy'n ysbrydoli'ch caneuon chi?**
Profiadau personol fel arfer. Dwi'n gweld o'n haws sgwennu am bethau fel 'na. Mae'r ardal lle da ni'n byw yn ysbrydoliaeth mawr hefyd, yn enwedig Felinheli.

**Oes gigs gyda chi?**
Dim byd pendant ar y gweill eto. Ond mi yda ni ganol trefnu lansiad albwm a mwy o gigs i fynd efo fo.

**Be arall sy gyda chi ar y gweill eleni?**
Yr albwm newydd ydi'r peth mwya', a gobeithio gweld chi gyd yn rhai o wyliau mwya' Cymru!

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff fand neu artist o Gymru**
Big Leaves mashwr. Kim Hon a HMS Morris i wylio'n fyw.

**Hoff albwm erioed**
Sunflower gan The Beach Boys

**Hoff le i gyfansoddi**
Yn yr atig mashwr, yn edrych dros y Fenai.

**Disgrifiwch yr albwm newydd mewn 5 gair**
Traeth, haul, trên, adra, bodlon (ella neith o neud sens ar ôl chi wrando!)



# Dafydd Owain yn ‘Ymarfer Byw’

**Ag yntau wedi derbyn canmoliaeth eang i’w ail albwm, Ymarfer Byw, ac yn wir, wedi dod i frig pleidlais ‘Record Hir Orau’ Gwobrau’r Selar, mae Dafydd Owain bellach wedi gwneud ei farc o ddifri’ fel cerddor. Elain Gwynedd fu’n sgwrsio â’r artist o Gaernarfon ar ran Y Selar.**

**Beth oedd sbardun cychwynnol ‘Ymarfer Byw’?**
Does yna fawr fyth sbardun, o reidrwydd, i fy ngwaith cyfansoddi. Dw i’n un sydd i weld yn cyfansoddi caneuon yn gyson ac mae fy ffôn, fel unrhyw un arall sy’n cyfansoddi caneuon, yn llawn cofnodion o ganeuon sydd wrthi’n cael eu hysgrifennu neu wedi cael eu hysgrifennu. Wrth i’r cofnodion yma dyrru, dw i’n dueddol o weld pontydd ac elfennau sy’n gyffredin rhyngddynt — unwaith mae gen i 5–6 cân, dw i fel arfer yn gwybod be’ dw i’n drio’i ddeu’d hefo’r caneuon a dyna pryd dw i’n dechrau meddwl os oes ’na albwm ynddyn nhw.

Dw i’n lecio meddwl ’mod i’n gyfansoddwr sy’n rhyw fath o ddogfennu’r hyn dw i’n deimlo ar y pryd – hyd yn oed os nad ydw i’n siŵr o hynny fy hun eto. Dw i’n meddwl ei bod hi’n anodd sgwennu cân sydd ddim yn rhyw fath o adlewyrchiad o dy fyd personol ond dw i’n dueddol o bwyso mewn i’r teimladau mewnol yma ymhellach – fel petawn ni eisiau gwybod eu tarddiad a’u hanfod nhw.

Roedd hi’n gyfnod emosiynol anodd ac aneglur i mi tra’r oeddwn i’n ysgrifennu’r caneuon a ddiweddodd fyny ar ‘Ymarfer Byw’, felly mae’r caneuon yn adlewyrchu hynny.

**Pa themâu oeddet ti’n ceisio eu harchwilio wrth greu’r albwm?**
Mae’r themâu’n dueddol o ddangos eu hunain wrth i’r caneuon dyfu ac esblygu. Bron fel bod y caneuon eu hunain yn ffordd o ddatod clyma’. Wrth fynd drwy gyfnod go heriol yn bersonol, roedd hi’n naturiol fod themâu eitha’ tywyll yn rhan annatod ohonynt – cysyniadau dwys fel byw a marw, yr hunan a’r arall, ail-eni, treigl bywyd.


**I’r bobl sy’n anghyfarwydd â dy gerddoriaeth di, sut fysa ti’n disgrifio’r caneuon sydd ar yr albwm?**
Am wn i fod yr albwm yn rhyw fath o gronicl lled-gysyniadol sy’n dogfennu cyfnod emosiynol-aneglur i mi’n bersonol. Mae ’na ganeuon dwys iawn ar y record – rhai sy’n gwneud i mi deimlo’n anghyfforddus mod i wedi llwyddo i’w hysgrifennu heb sôn am eu rhyddhau. Ond mae ’na lot yn sôn eu bod nhw’n clywed lot o oleuni yn yr albwm er gwaetha’r holl dywyllwch. Mae hynny’n gwneud imi deimlo’n well.

Ond, taswn i’n bod yn gwbl onest, dw i’n ei chael hi’n anodd iawn siarad am yr albwm cymaint oedd her y profiadau personol. Dw i’n hoff o feddwl fod y caneuon yn sefyll ar ben eu hunain fel digon-eglurhad o’r cyfnod. Mae eglurhad pellach gen i’n ormod ac yn gwbl ddiangen, mewn ffordd.

Mi wnes i ofyn i’r bardd Llŷr Gwyn Lewis ysgrifennu rhywbeth am yr albwm i mi fel nad oedd rhaid i mi sôn amdano mewn gigs. Mi wnaeth ei gerdd fy llorio ar ôl y ddwy linell gyntaf:


“Os mai hyn yw anobeithio,
Gad imi glywed honna eto.”

Handi ydi nabod bardd.



Hawlfraint Dion Jones

## “Ar un pwynt oeddwn i’n gwbl grediniol fod o’n albwm ofnadwy o wael...”



**Pam dewis y teitl, ‘Ymarfer Byw’?**
Oeddwn i’n eitha’ lecio *ring* y peth a d’eud y gwir. Ond mae o hefyd yn eitha’ aml-haenog – yn chwarae hefo’r syniad go haniaethol (yn dibynnu ar gredoau’r unigolyn) mai dim ond unwaith da ni’n ‘fyw’ ac felly’n hynny o beth, ’da ni’n ‘ymarfer’ i bob pwrpas. Ond hefyd, mae ’na haen yn yr enw sy’n cyfeirio at y syniad o ‘ddeall byw’ eto — fel fasa ti’n neud pan ti’n ymarfer cân — “nawn ni drio honna eto, ond tro ’ma nawn ni newid hyn, llall ac arall...”.

**Ble a gyda phwy wnes di recordio’r albwm?**
Cafodd rhan helaeth yr albwm ei recordio yn Stiwdio Sain dros fis Chwefror 2025. Dyna ble bu i mi recordio fy albwm *solo* cyntaf hefyd. Mi ges i’r un criw o gerddorion craidd i mewn i recordio ‘Ymarfer Byw’ hefyd sef Osian Huw (Drymiau), Gethin Griffiths (Piano), Aled Huws (Bas) a Harri Owain (Clarinét). Mi oedd ’na lwyth o gerddorion eraill yn rhan o’r recordio tro ’ma hefyd gan roi offerynnau megis sacsoffon (Dafydd Glyn Williams, Steve Sweet Baboo), llinynnau (Mari Morgan, Dáire Roberts) a *pedal steel* (Rhodri Brooks) i lawr ar y traciau. Fel unrhyw albwm, mi oedd hi’n broses *on and off* am fisoedd nes rhywsut mae’r cyfan yn disgyn yn ei le.


Mi wnes i hefyd fynd ati i gydweithio hefo’r côr gwerinol Eryrod Meirion ar lond llaw o draciau. Glaniodd dwy o’r rheini ar y record sef ‘Nofio Gwyllt’ a ‘Gada’lgan’. Mi oeddwn i’n gwrando dipyn ar gerddoriaeth plygain yn ystod yr adeg oeddwn i’n ysgrifennu’r caneuon hyn a thrwy hynny ddaeth y syniad o gynnwys côr ar yr albwm. Y bwriad hefo’r traciau oedd rhoi caniatâd i’r gwrandäwr ddod allan o’r byd am gyfnod ond hefyd i gydweithio hefo ‘offeryn’ hollol newydd.

Yn cynhyrchu’r albwm oedd Llŷr Parri. Mi wnes i weithio hefo Llŷr ar fy albwm cyntaf ond ’da ni hefyd wedi bod yn cydweithio ar gerddoriaeth ers blynyddoedd lawer. Mae Llŷr yn athrylith.

**Wnes di ddod ar draws unrhyw heriau wrth recordio ‘Ymarfer Byw’?**
Wnaethon ni ddim dod ar draws unrhyw heriau penodol ond dw i’n cofio diodda’ lot hefo ansicrwydd dros yr albwm. Ar un pwynt oeddwn i’n gwbl grediniol fod o’n albwm ofnadwy o wael a ’mod i wedi gwneud camgymeriad mawr yn dechrau ei recordio fo. Dw i’n diodda’ o dro i dro hefo cwestiynau ynghylch safon y gerddoriaeth dw i’n greu, ond ges i bwl go ddrwg yn ystod yr albwm yma. Dyna lle mae rhywun fel Llŷr, dy gynhyrchydd di, yn dod mewn i achub yr holl beth. Fydda i’n aml yn meddwl fod gwaith Llŷr yn gyfuniad o weledigaeth creadigol a hefyd cefnogaeth emosiynol — ond dydw i bendant ddim yn ei dalu o ddigon i wireddu’r ddau beth!

**Oes gen ti hoff gân oddi ar y record?**
Ma’n pendilio rhwng ‘Gweld Fy Nghant’ a ‘Cawl’.

**Sut mae’r albwm hwn yn cymharu gyda dy *solo album* cyntaf Uwch Dros y Pysgod?**
Dw i wedi myfyrio hyn fymryn dros y flwyddyn ddiwethaf. Dw i’n meddwl fod Uwch Dros y Pysgod fel albwm wedi rhoi mymryn o ‘ganiatâd’ i mi fod ychydig yn fwy gonest hefo’n ngherddoriaeth. Roedd Uwch Dros y Pysgod yn albwm led-hunan-bortreadol i bob pwrpas. Roedd fy emosiynau i yn llinyn drwy’r cyfan ond yn ddyfnach o fewn y gerddoriaeth. Wrth i’r albwm yna



Hawlfraint Elin Gruffydd

lwyddo a chael ymateb da, mi wnaeth o roi rhyw fath o ganiatâd i mi fod yn fwy personol hefo'r ail albwm.

Fel oeddwn i'n sôn, mae fy ngherddoriaeth i wastad yn reit bersonol, a dyna'r union reswm pam na wnes i rhyddhau cerddoriaeth ar ffurf *solo* am gymaint o flynyddoedd – doeddwn i ddim yn siŵr os fyddai cynulleidfaoedd eisiau clywed hynny.

**Wnes di fwynhau'r gigs yn y Galeri ac yn Eglwys St Ioan, Canton? Mae sawl un wedi nodi fod y gigs rheiny yn un o uchafbwyntiau'r sin cerddorol yng Nghymru yn 2025, ac yn disgrifio'r profiad o fod yn y gynulleidfa fel 'gwylio'r albwm yn dod yn fyw o flaen eu llygaid'. Ai dyna oedd dy fwriad di wrth fynd ati i gynllunio'r nosweithiau?**

Dydw i ddim yn siŵr be oedd fy mwriad i a deud y gwir. Mae cwestiynau fel hyn yn anodd i'w hateb imi achos dw i'n dueddol o ddilyn fy ngreddf y gorau dw i'n gallu fel artist. Os oes 'na benderfyniad sy'n 'teimlo' yn iawn, yna dw i'n mynd amdani – anaml ga'i gyfle i bendroni pam fod y penderfyniad hwnnw'n teimlo'n iawn ar y pryd.

Wrth baratoi at y gigs, roeddwn i'n gwybod fy mod i eisiau i'r perfformiadau deimlo'n ddwys ac yn eitha' *intense*. Yn dywyll ond hollol saff. Roeddwn i jesd yn awyddus i'r gynulleidfa brofi emosiwn a ma'n edrych fel fy mod i wedi llwyddo ond oedd rhaid imi fod yn ofalus hefyd achos, oherwydd natur yr albwm, mae 'na brofiadau emosiynol sy'n gallu bod yn anodd i'w profi yn y caneuon.



**Oes gen ti gigs yn dod fyny yn fuan?**

Mae 'na lond llaw o gigs yn dod fyny dros 2026 gan gynnwys Neuadd Ogwen ac ambell un sydd eto i'w cyhoeddi. Os gwnewch chi fy nilyn i ar fy nghyfrif Instagram fyddwch chi'n siŵr o 'ngweld i'n mwydro amdanyn nhw - @dafowain

**Oes gen ti unrhyw 'merch' i gyd-fynd â'r albwm?**

Oes, am y tro cyntaf erioed. Mi wnes i wneud rhediad bychan o gapiau pig – 'CAP DAFYDD OWAIN' – mymryn yn ôl. Mae 'na dal lond llaw ar ôl os oes 'na rhywun ffansi un.

Mae gen i hefyd feinyl o fy albwm diweddaraf ar werth drwy Bandcamp I Ka Ching.


**Beth sydd ar y gweill gen ti rŵan? (Os wyt ti'n cael rhannu wrth gwrs!)**

Sori! Methu rhannu dim byd ar hyn o bryd!






AR GAEL NAWR!




ylolfa.com
Llyfrau dros Gymru

Technegol Ltd

Arbenigwyr mewn rheoli, trefnu a chefnogi digwyddiadau.

Specialists in event planning, management and support


Sain
Goleuo
AV
Llwyfan Allanol
Adeiladu Set
Dylunio
Cegin Arddangos
Technegwyr Profiadol
Rheoli Digwyddiad

Sound
Lighting
AV
Outdoor Staging
Set Building
Design
Exhibition Kitchen
Experienced Technicians
Event Management

01570 617200
technegol.co.uk
info@technegol.co.uk
Cymraeg

HER DDARLLEN
GWOBRAU
TIR NA N-OG
AWARDS 2026


1976–2026
DATHLU 50
CELEBRATING 50



Ymunwch â'r Her!

Mae Gwobrau Tir na n-Og yn hyrwyddo'r gorau o lenyddiaeth plant yng Nghymru.

Dewch i ddathlu 50 mlynedd o'r gwobrau drwy gymryd rhan yn ein Her Ddarllen!



Heriau i blant, pobl ifanc ac oedolion.

Casglwch daflen Her Ddarllen i blant a phobl ifanc o'ch siop lyfrau neu o'ch llyfrgell leol, neu sganiwch y cod QR hwn i lawrlwytho'r holl heriau!



Cynhaliwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru | llyfrau.cymru
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# ENILLWYR GWOBRAU'R SELAR 2025

**Dyma ni felly, amser Gwobrau'r Selar unwaith eto – ein dathliad blynyddol o lwyddiant cerddorol y flwyddyn a fu!**

**Bu'n chwip o flwyddyn eto i gerddoriaeth Gymraeg, gyda llwyth o artistiaid ifanc yn gwneud eu marc, ynghyd ag artistiaid mwy profiadol yn denu torfeydd enfawr i gigs ledled y wlad. Yr amrywiaeth ydy'r peth mwyaf i'w ddathlu pan ddaw at gerddoriaeth Gymraeg gyfoes, ac mae'r amrywiaeth hynny i'w weld yn glir wrth edrych ar restrau hir Gwobrau'r Selar eleni. Mae gwerthfawrogiad y gynulleidfa o'r amrywiaeth hynny hefyd i'w weld yn amlwg wrth edrych ar yr enwau a ddaeth i frig y bleidlais gyhoeddus rhwng y rhestrau byr, a'r enillwyr. Dyma grynhoi'r canlyniadau eleni felly:**

## CAN ORAU



(noddir gan PRS for Music)

**Tri uchaf:**
Leo - Dafydd Owain
Boys Will Be Boys - Dros Dro
Disgyn – Buddug

**ENILLYDD: Disgyn – Buddug**

Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i Buddug gipio'r wobr yma ar ôl i'w sengl, 'Unfan', ddod i frig y bleidlais llynedd. Rhyddhawyd 'Disgyn' ym mis Chwefror fel rhagflas i albwm cyntaf Buddug fyddai'n dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## GWAITH CELF GORAU



(noddir gan Y Lolfa)

**Tri Uchaf:**
Adra - Mynadd
Ymarfer Byw - Dafydd Owain
Pydru yn yr Haul - Cyn Cwsg

**ENILLYDD: Adra - Mynadd**

Yn yr oes ddigidol sydd ohoni, mae'n dda gweld bod artistiaid Cymraeg yn dal i roi pwyslais ar eu gwaith celf gweledol. Efallai nad oes cymaint o'r gweithiau celf hynny ar silffoedd siopau bellach, ond mae'n nhw'n bwysig i ddal y llygad. Gwaith celf y sengl 'Adra' gan Mynadd, sydd wedi'i ddylunio gan Dyfan Williams, sy'n mynd â hi.

## ARTIST UNIGOL GORAU

(noddir gan Calendr360)

**Tri Uchaf:**
Alis Glyn
Buddug
Dafydd Owain

**ENILLYDD: Buddug**

Buddug oedd prif enillydd Gwobrau'r Selar llynedd gyda phedair gwobr. Roedd Artist Unigol yn un o'r rheiny, a hi sy'n mynd â teitl hwnnw eto eleni er bod cystadleuaeth gref gan y profiadol Dafydd Owain, a'r addawol Alis Glyn.



## BAND NEU ARTIST NEWYDD GORAU

(noddir gan Brifysgol Aberystwyth)

**Tri Uchaf:**
Blêr
Martha Elen
Hafna



**ENILLYDD: Martha Elen**

Dyma chi gategori hynod i gryf eleni, a da gweld cymaint o artistiaid newydd yn gwneud eu marc unwaith eto. Bu'n flwyddyn ardderchog i Martha Elen, yn rhyddhau cyfres o senglau cyn gollwng ei EP cyntaf, Lludw Ddoe, ym mis Medi.



## BAND GORAU

(noddir gan Rownd a Rownd)

**Tri Uchaf:**
Ciwb
Pys Melyn
Bwncath

**Enillwyr: Pys Melyn a Bwncath**

Gyda channoedd yn pleidleisio, anaml iawn fydd un o wobrau'r Selar yn cael ei rhannu, ond roedd hi'n gwbl gyfartal rhwng Bwncath a Pys Melyn eleni! Mae rheswm da iawn am hynny gyda'r ddau fand yn creu argaff mawr dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Bwncath yn un o fandiau mwyaf y wlad ers sawl blwyddyn bellach ac wedi parhau i ddenu cynulleidfaoedd enfawr i'w gigs. Mae Pys Melyn yn apelio at gynulleidfa wahanol, ond yn amlwg yr un mor werthfawrogol o'u sain indie-amgen.



## DIGWYDDIAD BYW GORAU

(noddir gan Technegol)



**Tri Uchaf:**
Sesiwn Fawr Dolgellau
Tafwyl
Maes B

**Enillydd: Tafwyl**

Dyma'r tro cyntaf i ni atgyfodi'r categori 'Digwyddiad Byw' ers y cyfnod clo, ac roedd hi'n hen bryd gwneud hynny wrth i ddigwyddiadau cerddorol Cymru fynd o nerth i nerth. Un o'r gwyliau sydd wedi tyfu fwyaf dros y blynyddoedd ydy Tafwyl, ac mae'r wobr yn mynd i'r brifddinas y tro hwn.

## SEREN Y SIN

(noddir gan Heno)



**Tri Uchaf:**
Ani Glass
Carwyn Williams
Rose Datta

**Enillydd: Rose Datta**

Dyma wobr sy'n boblogaidd pob tro, a chyfle i dalu teyrnged i'r unigolion gweithgar yna yn y sin, yr arwyr tawel o bosib. Go brin y gellid defnyddio 'tawel' fel ansoddair i ddisgrifio Rose Datta – yn sicr mae i'w chlywed yn glir a chroyw. Wrth i'w band, Taran, fynd o nerth i nerth, ac iddi hithau ennill cyfres gyntaf Y Llais ar S4C, bu'n flwyddyn fythgofiadwy iddi.

## FIDEO CERDDORIAETH GORAU

(noddir gan Lingo Newydd)



**Tri Uchaf:**
Syched Cas - Dewin
Disgyn - Buddug
Bythwyrdd – TewTewTennau

**Enillydd: 'Disgyn' - Buddug**

Mae teimlad pellach o deja vu wrth i Buddug gipio'r wobr yma hefyd am yr eildro'n olynol. Fideo syml ond trawiadaol o fersiwn acwstig o'r trac 'Disgyn' gyda Chwarel Dinorwig yn gefnlen gwefreiddiol.

## RECORD FER ORAU




**Tri Uchaf:**
Amser - Rhi Jorj
Mynd a'r Tŷ Bach am Dro - Cowbois Rhos Botwnnog
Rhydd - Betsan

**Enillydd: 'Amser' - Rhi Jorj**

Roedd yn flwyddyn arwyddocaol i Rhi Jorj wrth iddi ddychwelyd i greu cerddoriaeth ar ôl cyfnod yn gwella o glefyd Addison. Rhyddhawyd yr EP Amser yn gynnar yn 2025, ac fe ddilynodd ei halbwm unigol cyntaf yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## GWOBR 2025



**Enillydd: Don Leisure**

Dyma gategori a gyflwynwyd gyntaf yn 2020, fel ymateb i'r flwyddyn eithriadol honno! Mae wedi amrywio rhywfaint o un flwyddyn i'r llall ers hynny, ond y syniad cyffredinol ydy ein bod yn gwobrwyo cerddor sydd wedi dangos agwedd bositif dros y flwyddyn a fu, gan ysbrydoli eraill wrth wneud hynny. Wrth feddwl yn ôl am 2025, allwn ni ddim meddwl ymhellach na Don Leisure, sef y cynhyrchydd Aly Jamal o Gaerdydd. Rhag ofn i chi fod yn byw mewn ogof yn ystod 2025, Jamal, oedd yn gyfrifol am gasgliad Tyrchu Sain, gan blymio i archif y label Cymraeg enwog hwnnw. Wrth wneud hynny mae wedi mynd ati i ail-ddarganfod, ail-ddychlygu ac atgyfodi clasuron o'r gorffennol gan roi bywyd newydd iddynt. Ond yn fwy na dim, mae wedi mynd â cherddoriaeth Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd, gan agor eu llygaid i gyfoeth arbennig ein diwylliant unigryw.



## CYFRANIAD ARBENNIG

(noddir gan Dydd Miwsig Cymru)

**Enillydd: Mr Phormula**

Allwn ni ddim meddwl am neb sy'n haeddu'r wobr yma'n fwy na Mr Phormula, sef Ed Holden. Mae'r boi yma fwy neu lai wedi cario hip-hop Cymraeg ar ei ysgwyddau ers dros chwarter canrif. Daeth y gŵr o Amlwch i amlygrwydd gyntaf fel rapiwr yn y band Pep le Pew ac mae wedi arloesi gyda'r genre hip-hop, ac fel bit bocsiwr, yn y Gymraeg fyth ers hynny. Bu'n aelod o Y Diwygiad gydag Aneirin Karadog, cyn i'r ddau ddod ynghyd eto gyda'r band Genod Droog, a dod yn fand mwyaf Cymru am gyfnod byr. Ers 2010 mae Ed yn cynhyrchu ac yn rhyddhau cerddoriaeth yn unigol dan yr enw Mr Phormula, ac mae wedi cyd-weithio gyda thoreth o rapwyr eraill yn y Gymraeg, ac mewn ieithoedd eraill. Wrth ddyfarnu'r wobr Cyfraniad Arbennig, rydan ni'n ceisio talu teyrnged i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol dros gyfnod hir o amser, ac sy'n parhau'n weithgar. Mae hynny'n sicr yn wir am Ed, wrth iddo ryddhau EP gyda'r prosiect Hel Clecs ar ddechrau 2025, ac yna'r albwm Cymraeg Worldwide ym mis Awst, gan gyd-weithio gyda rapwyr o amryw wledydd.

Dyma gerddor sydd wedi goroesi, esblygu, arloesi a rhagori yn y faes, ac mae'n llawn haeddu'r wobr Cyfraniad Arbennig.

# 10 Uchaf Albyms 2025

Efallai bod y pwyslais wedi newid o ran rhyddhau cerddoriaeth diolch i'r llwyfannau ffrydio, ond mae'r mwyafrif o artistiaid yn parhau i weld yr albwm fel y cyfanwaith cerddorol, a hir oes i hynny medd Y Selar. Un o'r categoriau Gwobrau'r Selar rydan ni'n fwyaf chwilfrydig amdano bob tro felly ydy'r 'Record Hir Orau'. Mae gan rywun eu amheuaeth am ba albwm neu albyms fydd yn dod i frig y bleidlais, ond bu ambell sypreis dros y blynyddoedd hefyd – peth felly ydy democratiaeth wyddoch chi! Yn ôl ein cofnodion ni, rhyddhawyd 37 o albyms Cymraeg yn ystod 2025, ac maent unwaith eto'n adlewyrchu'r amrywiaeth gerddorol eang sy'n bodoli o fewn y sin. Mae'r 10 uchaf ym marn darllenwyr Y Selar yn hepgor ambell enw mawr, ond efallai bod hynny'n dysteb i safon yr albyms a ryddhawyd. Dyma gyfri lawr 10 uchaf albyms 2025....

## 10. Solas - Adwaith



**Label:** Libertino
**Rhyddhawyd:** Chwefror
Solas ydy trydydd albwm y triawd o Gaerfyrddin, a'r olaf yn nhrioleg 'dod i oed' Hollie, Gwenllian a Heledd. Enillodd y ddau albwm blaenorol Y Wobr Gerddoriaeth Gymreig wrth gwrs, yr unig fand i gipio'r teitl hwnnw ddwywaith. Yn gerddorol, mae'r albwm diweddaraf yn symud i ffwrdd o ddylanwadau ôl-bync cynharach y grŵp, gan dynnu'n fwy ar ddiddordebau cerddorol ehangach y triawd, ac yn ôl Hollie mae "...am ddarganfod y cartref, y gofod diogel yna, tu mewn i chi". Wrth i'r band gyhoeddi ym mis Medi eu bod nhw am gael egwyl wedi degawd hynod o brysur, mae Solas yn sicr yn teimlo fel cwblhau'r cylch ym mhennod gyntaf y band.

## 9. Yn y Cymylau - Taran



**Label:** JigCal
**Rhyddhawyd:** Awst
A hwythau wedi rhyddhau eu EP cyntaf, sef 'Record Fer Orau' Gwobrau'r Selar llynedd Dyweda, Wyt Ti, yn 2024, y cam naturiol nesaf i Taran oedd i ryddhau eu halbwm cyntaf. Glaniodd Yn y Cymylau ar ôl cwpl o senglau fel tameidiau i aros pryd, gan arddangos aeddfedrwydd a hyder cynyddol y grŵp ifanc o Gaerdydd. Mae 'Troi'n Aur' a 'Brifo Eto' yn uchafbwyntiau amlwg ar y casgliad.

## 8. Diddiwedd - Diffiniad



**Label:** Cantaloops
**Rhyddhawyd:** Mai
Mae chwarter canrif yn gyfnod eitha' hir rhwng dau albwm i fand... ond hei, gwell hwyr na hwyrach am wn i! I fod yn fanwl gywir, roedd 27 o flynyddoedd ers rhyddhau albwm diwethaf Diffiniad, ym 1998 ond a hwythau wedi rhyddhau ambell sengl dros y blynyddoedd diwethaf, penderfynodd y band ei bod hi'n bryd gollwng record hir arall. Yn ôl y band mae hwn '...yn albwm i'r haf a'r hwyr, boed y belen felen yn yr awyr yn tywynnu neu'r belen ddisco yn y clwb nos yn disgleirio'. Yn sicr mae'n albwm pop llawn hwyl sy'n peri chi estyn am y 'sgidiau dawnsio.

## 7. Gad i mi Ddod Mewn - Ciwb




**Label:** Sain
**Rhyddhawyd:** Mehefin
Un o'r pethau gorau ddaeth o gyfnod y clo mawr oedd Ciwb. Oni bai am y pandemig, mae'n debygol na fyddai'r pedwarawd wedi dod ynghyd i gyhoeddi eu cyfyrs o ganeuon Cymraeg o'r gorffennol ar-lein. Dyma eu hail albwm, ac mae'n cynnwys fersiynau o ganeuon gwreiddiol gan Sidan, Steve Eaves, Y Cyrff, Mojo, Angylion Stanli, Heather Jones ac Y Trwynau Coch i enwi rhai. Yn ôl yr arfer mae gwesteion arbennig sy'n cynnwys Eban Elwy, Ifan Davies, Buddug, Magi, Ifan Pritchard, Hollie Singer, Lisa Jên a Griff Lynch.

## 6. Rhwng Gwyll a Gwawr - Buddug




**Label:** Côsh
**Rhyddhawyd:** Mehefin
A hithau wedi cipio pedair o Wobrau'r Selar ar ddechrau'r flwyddyn, teg dweud bod cryn edrych ymlaen at ddyddiad rhyddhau albwm cyntaf Buddug. Glaniodd ar ddechrau'r haf gan gadarnhau'r hyn roedd pawb yn ei amau, sef bod yma dalent cyfansoddi a chanu aruthrol. Mae'r casgliad deg trac yn llawn o ganeuon allai fod yn senglau – o agoriad bywiog 'Rhywun Arall', i'r *hit* mawr a'i sefydlodd 'Dal Dig', i faled hyfryd 'Digon' sy'n cloi'r casgliad. Ardderchog.

## 5. Y Diwrnod ar ôl Yfory - Dros Dro



**Label:** Label Parhaol
**Rhyddhawyd:** Gorffennaf
Dyma albwm cyntaf Dros Dro, ac un aeth fymryn o dan y radar fe ellid dadlau. Er hynny, mae'n amlwg wedi creu dipyn o argraff ac yn sicr mae gan Dros Dro ddilyniant sylweddol. Hwy wrth gwrs oedd enillwyr Cân i Gymru 2025 gyda'r trac 'Troseddwr yr Awr' - mae honno ar y casgliad, ynghyd â'u fersiwn o 'Pishyn' gan Edward H. Mae uchafbwyntiau eraill yn cynnwys 'Troi'r Gyllell' a ffefryn y ffans, 'Boys Will Be Boys'.

## 4. Bwncath III - Bwncath



**Label:** Sain
**Rhyddhawyd:** Mai
Mae'r cliw yn yr enw, dyma drydydd albwm llawn Bwncath, ac mae pawb yn gwybod beth ellir ei ddisgwyl bellach – casgliad o anthemau enfawr a baledi teimladwy gan un o fandiau mwyaf poblogaidd Cymru. O ran yr anthemau, mae 'Dy Feddwl' a 'Castell Ni' yn sefyll allan tra bod 'Suddo' a 'Cysgod Dy Law' yn faledi sy'n plesio.

## 3. Er Gwaetha' Pob Dim - Yr Anghysur




**Label:** Recordiau Rwst
**Rhyddhawyd:** Ebrill
Yr Anghysur ydy'r band diweddaraf yn llinach gerddorol gyfoethog Dyffryn Conwy. Fel y bandiau hynny o'r Dyffryn maen nhw'n eu dilyn – Sen Segur, Jen Jeniro ac wrth Y Cyrff i enwi rhai – mae awyrgylch a daearyddiaeth unigryw eu cymuned yn amlwg wedi dylanwadu'n ddwfn ar eu cerddoriaeth. Y traciau 'Milltir Sgwar' a 'Cofia I' sy'n adlewyrchu hynny fwyaf mae'n siŵr, ond i unrhyw un sy' gyfarwydd â'r ardal a'r bandiau sydd wedi dod ohoni, mae sain y Dyffryn yn llifo trwy'r casgliad.

## 2. Ysgafn - Rhi Jorj




**Label:** Annibynnol
**Rhyddhawyd:** Tachwedd
A hithau wedi bod yn aelod o fandiau yn y gorffennol, gan gynnwys UST ac Amledd gyda'i gŵr Billy Thompson, mae Rhi Jorj wedi cael deffroad o'r newydd gyda'i phrosiect unigol. Yn sicr roedd 2025 yn flwyddyn brysur iddi'n gigio'n gyson, yn rhyddhau ei EP cyntaf, 'Amser', ac yna ei halbwm unigol cyntaf, 'Ysgafn', ddiwedd y flwyddyn. Mae wedi bod ar daith bersonol ers cael diagnosis o glefyd Addison yn 2023 ac mae rhywun yn teimlo mai yr albwm yma ydy penllanw'r daith honno. Caneuon digon syml ond swynol sydd drwy gydol y casgliad, ac mae hynny'n amlwg wedi plesio'r pleidleiswyr.



## 1. Ymarfer Byw - Dafydd Owain

**Label:** I KA CHING
**Rhyddhawyd:** Hydref
Mae'r cyhoedd wedi cael dweud eu dweud, ac Ymarfer Byw gan Dafydd Owain ydy Record Hir Orau 2025. Anodd dadlau gyda hynny – mae ail albwm unigol y cerddor profiadol yn chwip o record. Mae cyfle i chi ddysgu mwy am y casgliad yn ei gyfweliad gydag Elain Gwynedd yn y rhifyn hwn, ond teg dweud bod yma albwm dwys a gonest sy'n gweld Dafydd yn ymbalfalu ag amryw brofiadau bywyd. Roedd y senglau a rhyddhawyd ymlaen llaw, 'Cawl' a 'Leo' wedi rhoi arwydd o'r hyn ellid ei ddisgwyl, sef caneuon teimladwy, emosiynol a chofiadwy. Mae alawon gwerin eu naws 'Nofio Gwyllt' a 'Gada'lgan' yn cynnig amrywiaeth, ynghyd â thraciau mwy *upbeat* 'Welisdi' a 'Dopamin', ond y baledi pruddglwyfus ydy'r caneuon sy'n serennu ar yr albwm yma. Dyma un o albyms Cymraeg gorau'r ddegawd.

# MALI HÂF

*Un o artistiaid mwyaf gweithgar Cymru dros y cwpl o flynyddoedd diwethaf ydy Mali Hâf, ac mae'n ymddangos mai 2026 fydd ei blwyddyn brysura' hyd yma. Angharad Rhiannon fu'n dysgu mwy am yr hyn sydd ganddi ar y gweill ar ran Y Selar.*

**Mae aderyn bach di dweud wrthym ni bod gen ti EP newydd yn dod mas cyn bo hir?**
Ie… Wel, fi'n credu ac yn gobeithio bod e'n agor lan fy myd newydd, sef Miwsli. Yr EP cyntaf yw Miwsli, ac wedyn bydd EP arall a llwyth o senglau sef More Miwsli. Dwi'n gobeithio creu byd, nid *concept*, ond jest byd ble mae pobl yn gallu camu mewn i'r syniad yma yn fy mhen i, a deall pwy ydw i mwy. Dwi'n teimlo fel mod i'n dweud hynna bob blwyddyn ond gobeithio mae'n mynd yn gliriach. Yn wreiddiol ro'n i am wneud albwm ond dwi dal yn teimlo bo 'na fwy o ddatblygiad i neud da Mali Haf… ond dwi'n agosach dwi'n credu.

**Be yw Miwsli felly?**
I fi… Dwi'n dychmygu byd rhywle rhwng Caerdydd ac Annwn a gwrach fach (sef fi) yn creu swynau a thrio neud sens o'r byd. Mae popeth yn *hand-made* – y wisg ar gyfer Miwsli yw *teatowels* Cymraeg. Dwi'n trio cal *vibes DIY* a rhywle yn y dychymyg. Y syniad 'da'r caneuon yw bo chi'n clywed meddyliau fi peth cyntaf yn y bore gyda bowl o miwsli neu ganol nos lle dwi methu cysgu.

**Ers faint wyt ti wedi bod yn gweithio ar yr EP?**
Ma'r EP cyntaf bach yn hen. Nes i greu nhw tua blwyddyn a hanner yn ôl. Dwi di ffaffo o gwmpas am resymau personol ond eleni dwi am ryddhau a bod yn llai *precious* am bethau hefyd. Ti'n gallu gorfeddwl os yw pethau'n ddigon da ond dwi jest ishe rhyddhau.

**Oes gen ti hoff gân ar yr EP?**
Hmmm… fy mhroblem i yw mod i wastad yn hoffi'r gân sy mwyaf newydd. So, dwi ddim yn gwybod os mai honno yw'r gân orau ond dyna yw fy mhatrwm i. Dwi'n credu ar yr EP cyntaf, fy hoff gan ar y foment yw 'Felly', ac wedyn ar yr ail un, dwi ddim yn siŵr ond y sengl dwi'n edrych ymlaen at yw 'Cymru Knocking' achos mae'n cyd-fynd a phethau gwleidyddol sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd.

**Pryd a ble fyddwn ni'n gallu gwrando ar yr EPs?**
Dwi'n dal i drio penderfynu ar y clawr achos dwi mor ffysi ond rhywbryd ym mis Mawrth gobeithio neu jest ASAP rili. Dwi wedi addo i fy hun i beidio bod yn dawel y flwyddyn yma.



**Rwyt ti wedi bod ar rheithgor Cân i Gymru yn ddiweddar – sut brofiad oedd hynny?**
*Amazing*! *Dream job* rili yn mynd trwy tiwns pawb. Mae'n neud i chi feddwl lot am y grefft o sgwennu cân. Dyw e' ddim yn hawdd. Mae'n *actually* peth anodd. Dwi'n gwybod bo' nhw mond yn dair munud ond mae 'na lot yn mynd ymlaen mewn tair munud. Ro'n i bach yn *touched* rili i gael fy newis. Dwi ddim yn *expert* fy hunan ond *dream job*! Odd pawb ar y rheithgor yn dîm rili da.

**Beth am gigs, rwyt ti wedi gwneud llwyth hyd yn hyn, oes na unrhyw ŵyl neu leoliad ti heb berfformio ynddo eto fase ti wir yn hoffi gwneud?**
Wel y flwyddyn 'ma dwi'n canolbwyntio ar ryddhau pethe. Dwi'n teimlo mod i 'di *neglectio* bach o'r ochr yna a sgwennu. Ond dwi'n caru gwyliau. Fy enw i yw Mali Haf. Mae'r cliw yn y teitl. Dwi jest yn caru gwyliau ar y cyfan. Dwi ishe gweld mwy o Gymru yn yr haf, a chwarae mwy o wledydd Celtaidd eraill hefyd. Swn i'n lyfio torri mewn i'r byd yna.

*Geiriau: Angharad Rhiannon*

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff fand neu artist o Gymru**
Malan

**Hoff artist erioed**
Rosalia

**Hoff gân i berfformio'n fyw**
'Esgusodion'

**Hoff wisg i berfformio ynddi**
Corset gan Rosie Evans wedi neud o tea towels Cymraeg

# NEWYDD AR Y SIN

Dau fand a gyrhaeddodd restr fer categori 'Band neu Artist Newydd Gorau' Gwobrau'r Selar eleni sy'n cael sylw Newydd ar y Sin yn y rhifyn yma.




# HAFNA

## Hanes

Ffurfiodd y band yn wreiddiol ym Medi 2022 dan yr enw Chwaral, gyda lein-yp ychydig yn wahanol. Roedden nhw i gyd yn chweched dosbaeth Ysgol Dyffryn Conwy ar y pryd, ond maen nhw bellach i gyd rhwng 19 ac 20 oed. Mae dau o'r aelodau gwreiddiol hynny wedi gadael bellach, ac mae'r aelodau cyfredol yn cynnwys Owain a Ross, sydd wedi bod yn chwarae gitâr gyda'i gilydd ers blwyddyn 3, pan ddechreuodd y ddau gael gwersi yn yr ysgol gydag Alun Tan Lan. Mae'r ddau wedi bod yn jamio gyda Gruff ers blwyddyn 7 ac fe ymunodd Ffion gyda nhw yn y chweched dosbarth pan ddaeth i Ddyffryn Conwy o ysgol arall – yn ffodus, roedd y band yn chwilio am chwaraewr bas ar y pryd. Mae'r lineup presenol yn ei le ers Mawrth 2025 ac yng ngeiriau Owain "gyda set newydd sbon, ac chydig o reset, a mi arwyddon ni gyda Recordiau Rwst", sef label Hedd Fôn o Yr Anghysur.

"Mae enw'r band, Hafna, yn deillio o enw ar fwynglawdd plwm yng Nghoedwig Gwydir" eglura Owain, sy'n ategu ei fod yn aml yn cael ei gymysgu gydag unai Havana neu Hafan.

"Mi oeddem yn edrych am enw â oedd yn ein angori ni i ein milltir sgwâr ond hefyd a fyddai'n ddarllenadwy a pwysicach fyth, ynganadwy, i bobl ddi-Gymraeg gan bod canran sylweddol o ein dilynwyr unai'n Gymry di-gymraeg neu'n ffrindiau Saesneg trwy brifysgol neu deulu"

## Sŵn

Dywed y band bod eu sŵn yn plethu ychydig bach o sawl genre gwahanol. Mae ganddynt ganeuon sydd ychydig yn fwy gwerinol fel 'Pen y Gaer', rhai sydd yn agosach at pync fel 'Etifeddiaeth' a rhai sydd fwy pop-indie fel 'Lle Dwi Rili Fod'. Dywed Owain eu bod bob amser yn ceisio hawlio sylw'r gynulleidfa. "I gyflawni hyn, mae gan dipyn go lew o'n caneuon unai newid mewn amser neu maent wedi eu rhannu i fewn i rannau gwahanol fel medli fel nad oes gan y gynulleidfa syniad be ddaw nesaf." Mae'r band yn rhestru nifer fawr o ddylanwadau gwahanol sy'n newid o gân i gân ond mae The Beatles, a'r albwm Abbey Road yn enwedig (sydd wrth gwrs yn cynnwys un o'r medli's enwocaf), Melin Melyn, The Smiths, Y Bandana a Vanta/Mei Emrys yn ddylanwadau amlwg.

## Be Nesaf?

Mae gan y band gasgliad iach o ganeuon erbyn hyn meddent, ac maent yn awyddus iawn i'w recordio i gyd. Y bwriad wrth i'r rhifyn Selar hwn fynd i brint oedd i fynd i'r stiwdio ddechrau mis Mawrth er mwyn recordio eu hail sengl, 'Bagiau Blawd'. "Y gobaith hir-iawn dymor ydi cael tair sengl allan ac LP wedyn ond does gennym ddim llinell amser eto" meddai Owain. Mae'r band yn cynyddu eu cysondeb o ran gigio ar hyn o bryd, a hynny gan daflu eu rhwyd yn ehangach a thu hwnt i'w milltir sgwâr. "Y freuddwyd fyddai cael set Llwyfan y Maes (yn yr Eisteddfod) neu Maes B."

# BLÊR

## Hanes

Mae Osian (gitâr flaen), Gwenlli (gitâr rhythm/llais), Siôn (gitâr fâs) ac Emil (drymiau) yn dod o ochra Gaernarfon gydag Alaw (allweddellau) yn dod o Griccieth. Ffurfiodd y band ym mis Ebrill 2025 fel pedwarawd er mwyn ceisio cystadlu yng nghystadleuaeth Brwydr y Bandiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. "Mi oedden wir wedi synnu bo' ni di gwneud hi drwodd i'r rownd derfynol ar lwyfan y maes - dyna oedd ein gig gyntaf ni" meddai Sion.

Ar ôl y gystadleuaeth ym mis Awst, penderfynodd y band i ychwanegu aelod newydd, sef Alaw ar yr allweddellau. Er mwyn cadw'r momentwm i fynd ar ôl y gystadleuaeth, penderfynodd y band i recordio eu sengl gyntaf 'Defnyddia dy Eiria' ym mis Hydref, cyn ei rhyddhau ym mis Rhagfyr. Maent wedi bod yn gigio tipyn dros yr wythnosau diwethaf, gan agor i un o nosweithiau Tin Sardins, yn ogstal â chwarae yn 'Disgo 'Dolig Ciwb' yn y Galeri, Caernarfon.

## Sŵn

Yn ôl y band, mae'n anodd diffinio eu sain gan bod pob cân maen nhw'n ei ysgrifennu'n tueddu i swnio'n wahanol, "ond ar y cyfan fysa ni'n disgrifio ein sŵn fel indie roc/pop" meddai Sion. Maent hefyd yn gyndyn i fanylu ar unrhyw ddylanwadau cerddorol penodol, ond maent yn cyfaddef eu bod yn dwyn ysbrydoliaeth gan fandiau fel Pys Melyn, Fontaines, The Cure, The Cranberries a Beabadoobe.

## Be Nesaf?

"Mi ydym ni'n gobeithio cael mwy o gyfleoedd i gigio dros y misoedd nesa, gan ein bod ni wir yn mwynhau hynny" meddai Sion. Dywed eu bod nhw hefyd yn awyddus i gael cyfle i recordio ychydig, gan efallai ryddhau ychydig o ganeuon newydd tuag at ddiwedd yr hâf.



Y Gornel Werin

# Taff Rapids

*Geiriau: Nel Thomas*

**Mae'r pedwarawd blŵgras, Taff Rapids, yn gadael cynulleidfaoedd led-led y byd yn dawnsio wrth i Darren Eedens (Banjo, Llais), Sion Russel Jones (Gitâr, Llais), David Grubb (Ffidil) a Clem Saynor (Bas Dwbl) adael eu marc. Cefais y fraint o sgwrsio gyda Sion i ddysgu mwy.**

Nid yn unig yr ydym wedi cael y fraint o wrando ar Taff Rapids mewn digwyddiadau yng Nghymru gan gynnwys Tŷ Gwerin, Gŵyl y Dŷn Gwyrdd, Sesiwn Fawr a mwy, ond maent wedi bod yn dangos eu doniau mewn gwyliau a gigs enfawr ledled y byd yn ogystal. Mae hyn wedi cynnwys IMBA World of Bluegrass yn yr UDA, Folk Alliance International yng Nghanada, a'r Interceltique de Lorient, dim ond i enwi rhai.

Mae'r galw am eu sain arbennig yn tyfu wedi iddynt ryddhau eu halbwm cyntaf dan yr enw 'Blŵgras' llynedd.

Band o Gaerdydd ydynt, ac wrth sgwrsio gyda Sion dysgais bod eu gwreiddiau yn eang iawn, gyda rhai aelodau o'r band wedi symud o'r Alban, Canada, a Swydd Rydychen i Gaerdydd, gan uno ar sail eu hangerdd at gerddoriaeth gwein a blŵgras.

Tarddiad y band yn ôl Sion oedd sylw gan Darren ar-lein yn chwilio am aelodau i'w fand nôl yn 2020 a wedi hynny roeddent yn cwrdd yn Bub's yng Nghaerdydd yn gyson i chwarae 'Bub's grass' gan ddenu cynulleidfaoedd sylweddol. Wedi hynny aethont o nerth i nerth, gan adeiladu dilyniant yng Nghaerdydd a thu hwnt.

Difyr oedd dysgu sut fath o ymateb gafodd y band wrth berfformio tu hwnt i Gymru. Yn ôl Sion, doedd cynulleidfaoedd "ddim yn sylweddoli bod iaith yng Nghymru" a dywed bod "pobl yn diddori yn y iaith yn llwyr".

Braf oedd clywed hefyd bod pobl yn awyddus iawn i drafod eu cysylltiadau a Chymru gyda'r band wedi'r gigs. Dywed Sion pa mor braf oedd cyflwyno caneuon traddodiadol Cymraeg gydag addasiadau blŵgras arnynt ar draws y byd. Wrth ystyried eu gigs rhyngwladol dywed Sion mai y goreuon oedd Folk Alliance yn Montreal, Canada, a'r IMBA yn America nôl yn 2023, a ddisgrifiodd fel 'Glastonbury y byd bluegrass'.

Dywed Sion ei bod yn fraint  i gynrychioli Cymru ar lwyfannau mor fawr. Roeddent yn falch iawn o fod wedi gwneud cysylltiadau gydag asiantau bwcio yn America yn ogystal ag yn Ewrop a fydd yn parhau i agor y drysau iddynt rannu eu cerddoriaeth yn rhyngwladol.



## Dylanwadau Cymraeg blŵgras

Pan holais am y profiad o fod yn fand blŵgras, oedd yn genre anghyfarwydd i mi, yn yr iaith Gymraeg, dysgais nad oedd ei wreiddiau mor estron ag oeddwn wedi dychmygu. I Sion mae y dylanwad Celtaidd ar y genre yn ganolbwynt i'w cerddoriaeth, ac mae cysylltiadau clir rhwng cerddoriaeth werin a cherddoriaeth blŵgras. Yn amlwg mae Taff Rapids yn plethu nodweddion y ddau genre mewn ffordd soffistigedig a naturiol. Dywed Sion ei fod "yn credu ei fod wedi gweithio achos bod yr arddulliau mor debyg".

Mae eu dealltwriaeth o'r sain ac eu crefft yn amlwg ar eu halbwm cyntaf, *Blŵgras,* a rhyddhawyd ar ddechrau Mawrth 2025. Credaf bod yr egni a'r sylw i fanylion cerddorol ar yr holl albwm yn wefreiddiol. Mae'n gymysgedd o ganeuon Cymraeg a Saesneg, a'r caneuon 'Honco Monco' a 'One for the road' wedi cael eu rhyddhau fel rhagflas i'r albwm.

Dywedodd Sion eu bod yn "gasgliad o ganeuon o'r blynyddoedd diwethaf" ac eu bod wedi mwynhau gweithio ar yr albwm yng Nghaerdydd gyda'r cynhyrchydd talentog Sam Barnes. Bu iddynt recordio'r albwm mewn cyfanswm o tua pum niwrnod, gan recordio'r caneuon i gyd yn gwbl fyw, a'u recordio mewn dull eithaf "amrwd".



Yn ôl Sion mae'r ffordd hyn o recordio yn medru bod yn fwy "dwys" ac mae angen iddynt ffocysu, ond roedd yn eu galluogi i recordio mewn ffordd gyflymach oedd yn addas i'w sain . "Hwn oedd y dechrau iawn" meddai Sion mewn ymateb i'r broses recordio, a chyfarfod Clem i chwarae ar yr albwm. Roedd yn sicr bod recordio'r albwm, a chyfraniad newydd Clem wedi "dechrau ein taith fel band", yn yr ystyr llythrennol ac ehangach hefyd.

Yn amlwg maent wedi ymdrochi ac ymroi yn llwyr i'w crefft, a felly, maent ar y lôn yn gyson iawn. Dywed Sion nad oes "ddim llawer o opsiynau ond i weithio yn y ffordd hen ffasiwn" a hynny yn golygu gigio'n aml, yn bell ac yn agos. Roedd y darlun roedd Sion wedi'i beintio i mi o'r pedwar ohonynt yn gwasgu mewn i fan gyda'u hofferynnau wrth fynd i deithio yn un digri' ond blinedig. Soniodd am un noson y gwaethon nhw gig yng ngŵyl Focus Wales yn Wrecsam cyn gyrru'n syth i'r Almaen i wneud gig y noson ganlynol; dyna i chi ymroddiad.

Er bod yr amser ar y ffordd yn gallu bod yn flinedig pwysleisiodd Sion ei fod yn "lot o hwyl, ac yn teimlo'n ffodus i fynd i lefydd na fyswn i fel arfer yn mynd, yn cynrychioli Cymru" a fod y band yn "gwerthfawrogi bod adre gymaint". Braf clywed eu bod yn "Mwynhau cwmni ein gilydd, ein bod yn ffrindiau da" ac ei fod yn gwerthfawrogi treulio amser gyda "cerddorion mor dda".

"Os nad ydech chi yn ffrindiau da iawn, dydi o ddim yn bosib" pwysleisia Sion wrth drafod yr holl amser maent gyda'i gilydd oddi ar y llwyfan.

Wrth holi am uchafbwyntiau Sion, yn ei brofiadau gyda'r band hyd yn hyn, roedd yn drawiadol clywed bod eu gig yn yr Eisteddfod Genedlaethol llynedd yn y Tŷ Gwerin, wedi aros yn y cof. Er bod llawer o bwysau arnynt gan eu bod yn cael eu ffilmio, dywed ei fod yn "bwysau da", a bod hwnnw yn "un o'r gigs fyddai'n cofio am byth", am ei fod fel "*homecoming* i ni ar ddiwedd taith hir".

Roeddwn yn awyddus i wybod beth yw cynlluniau y band ar gyfer y dyfodol, ac roedd yn hynod gyffrous clywed eu bod yn edrych ymlaen i recordio ail albwm eleni gyda label recordiau Cosh, gan weithio mewn stiwdio breswyl, gyda mwy o draciau Cymraeg eto ar yr albwm hwn.

Dywed Sion ei fod yn gweld y "gerddoriaeth yn well am ein bod ni wedi bod efo ein gilydd am amser hir", ac eu bod yn edrych ymlaen at drio symud ymlaen gyda'r band gan hefyd fynd gyda'r don "heb feddwl gormod". Maent yn edrych ymlaen i berfformio mewn llawer o gigs eto eleni yn cynnwys Tŷ Gwerin, Sesiwn Fawr Dolgellau, Between the Trees, llawer iawn o wyliau gwerin, a gymaint mwy! Cadwch olwg ar eu cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf felly.



# Degawd o ALFFA

Mae'r ddegawd diwethaf wedi bod yn un a welodd lawer o newid yn y sin gerddoriaeth Gymraeg. Mae hynny'n ddigon naturiol – mae bandiau yn mynd a dod, yn dod ac yn mynd...ac yn ddigon aml yn dod nôl eto pan fyddan nhw'n sgint a bod cyfle i wneud ceiniog neu ddwy efallai! Er hynny, mae un peth sydd wedi bod yn gyson dros y ddegawd diwethaf, ac Alffa ydy hynny.

Deuawd digon diymhongar ydy Alffa yn y bôn, ond gellir dadlau nad oes band neu artist Cymraeg arall wedi cael cymaint o impact rhyngwladol, a llwyddo i gyrraedd cynulleidfa mor eang gyda chaneuon Cymraeg.

Wrth gwrs, mae dadl gref dros Gwenno ac Adwaith sydd wedi mynd â'u brand unigryw o gerddoriaeth i bedwar ban byd gan ddenu sylw eang. Y gwahaniaeth gyda nhw efallai ydy bod naratif cryf tu ôl i'r gerddoriaeth, a hynny wedi bod yn fodd i fyw i newyddiadurwyr cerddorol. Mae Alffa ar y llaw arall, wedi gorfod dibynnu bron yn llwyr ar y gerddoriaeth, heb y stori gefndir...achos y cefndir ydy mai jyst dau foi o Lanrug sy'n hoffi gwneud miwsic ydyn nhw ynde?

Anodd credu bod degawd wedi pasio ers i Dion a Sion ddod ynghyd i ffurfio Alffa yn 2015, ac fe wnaethon nhw ryddhau'r sengl 'Disgrazia' yn yr hydref i nodi'r garreg filltir. Cadw'n driw unwaith eto at bolisi oesol Alffa - dim gormod o ffys, jyst gadael i'r gerddoriaeth wneud y siarad. Ac mae 'Disgrazia' yn bangar arall i gatalog y band.

Beth am fynd yn ôl i'r dyddiau cynnar... ffurfiodd y band, fel nifer o fandiau eraill, yn Ysgol Brynrefail, Llanrug yn 2015.

Yn ôl Dion Jones, y gitarydd a chanwr egnïol, roedd o a Sion Land wedi bod yn aelodau o fandiau cyn hynny, ond roedd eu cariad at gerddoriaeth wedi denu'r ddau at ei gilydd i wneud rhywbeth o'r newydd.

"Ddoth fi a Sion yn agosach oherwydd yr angerdd at gerddoriaeth" eglura Dion.

"Odd y ddau ohona ni wedi bondio'n reit ifanc dros fandiau fel Pendulum a Foo Fighters. Roedd 'na wastad gyswllt yna - jyst mater o adael iddo flodeuo."

Mae'r Selar yn cofio derbyn demos yn y dyddiau cynnar hynny a gweld bod digon o botensial i gynnig ambell gyfle fel slot ar lwyfan perfformio Eisteddfod Yr Urdd yn Y Fflint yn 2016, ac yna sylw eitem 'Ti di Clywed...' yn rhifyn Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn honno.

Oedd, roedd rhywbeth yn ffrwtian gyda'r ddeuawd ddigon tawel a gîcî yr olwg oedd yn dod yn fyw ar lwyfan.

Roedden nhw'n weithgar, yn chwilio am gyfleoedd rheolaidd i gigio, a byddai unrhyw un sy'n gwybod unrhyw beth am fandiau yn cadarnhau mai mewn gigs mae mireinio crefft.

"Mae'r gig gyntaf rhwng Brwydr y Bandiau clybiau ieuenctid Arfon a gig yn Clwb pêl-droed Gaerwen yn cefnogi Bryn Fôn a'r band" meddai Dion.

"Ail gath Alffa [yn y gystadleuaeth Brwydr y Bandiau] ond mi wnaethon ni ennill gyda'n band arall ar y pryd, Yr Ymylon.

"Roedd hwna'n adeg cyffrous, a fyswn i'n licio tynnu sylw at nosweithiau fel 4 a 6 yng Nghaernarfon ar y pryd oedd yn ddylanwad mawr arnom ni fel band."

## Cerrig milltir cynnar

Er nad ydyn nhw'n fand sydd wedi deisyfu sylw o reidrwydd, mae'n teimlo fel petai sawl moment fawr wedi bod yng ngyrfa Alffa sydd wedi eu gweld nhw'n ffrwydro i sylw'r cyhoedd.









Un o'r cyntaf oedd Eisteddfod Genedlaethol Môn 2017, pan enillodd y ddeuawd gystadleuaeth Brwydr y Bandiau.

Teg dweud mai amrywiol fu safon y gystadleuaeth honno dros y blynyddoedd, a'r sylw sy'n cael ei rhoi iddi...ond roedd ffeinal y flwyddyn honno'n arbennig o gryf ac yn cynnwys Mosco, y mwyaf sefydledig ar y pryd mae'n siŵr, Jack Ellis, Mabli Tudur, Eädyth a Gwilym.

Yn sicr, nid Alffa oedd y ffefrynnau ond y nhw yn nhyb y beirniaid Ifan Sŵnami, Elan Evans a Steffan Dafydd, oedd yn haeddu'r teitl.

Byddai unrhyw un oedd yn Steddfod Môn yn tystio bod rhyw awyrgylch arbennig i'r gystadleuaeth y flwyddyn honno, a hefyd teimlad arwyddocaol i'r canlyniad. Yn sicr mae canran yr artistiaid yn y rownd derfynol aeth ymlaen i wneud eu marc yn uchel, ond nid pawb sy'n manteisio'n llawn ar y cyfleoedd mae'r teitl yn eu cynnig, ac mae hyn eto'n gwneud Alffa'n eithriad i'r drefn.

"Dwi'n meddwl yn gyffredinol ma dyma ydi ein hagwedd ni fel band, dim cymryd dim byd yn ganiataol a gwthio'r ffiniau gymaint a allwn ni pryd mae cyfle yna" meddai Dion wrth ymateb i'r awgrym eu bod nhw wedi cymryd mantais llawn o gyfleoedd ennill Brwydr y Bandiau.

"Roedd cyfnod brwydr y bandiau yn gyfnod hynod gyffrous ac yn drobwynt mawr i ni fel band. Cyfnod da ni'n werthfawrogol iawn ohono."

Ai honno oedd y foment fwyaf arwyddocaol i'r band felly, y *breakthrough* mawr fel petai?

"Hmmm mae hwn yn anodd i'w ateb rhywsut" cyfaddefa Dion.

"Dwi'n meddwl bod ni wastad wedi coelio yn be 'da ni'n neud, *regardless* o faint o sylw 'da ni wedi cael.

"Mae 'na *breakthrough* amlwg gyda Gwenwyn, ond hefyd mae'n anodd *predictio* breakthough dydi? Felly mae'r gred 'na wastad wedi bod yna'n ddistaw bach rhwng y ddau ohona' ni."



## Miliwn ffrwd

A dyma ni'n cyrraedd y foment fawr nesaf yn hanes Alffa, a'r un a gipiodd y mwyaf o benawdau newyddion yn sicr!

Ar ddechrau Awst 2018, rhyddhawyd y sengl 'Gwenwyn' - cynnyrch cyntaf y



band ar label Côsh, ac yn wir, roedd y cyfle cyntaf i glywed y trac ar wefan **Y Selar** yr wythnos flaenorol.

Erbyn diwedd Awst roedden ni'n cyhoeddi stori'n sôn am y ffaith bod y trac wedi'i ffrydio dros 100,000 o weithiau ar Spotify - ffigwr ardderchog i fand ifanc Cymraeg. Yn wir, dim ond 13 o ganeuon Cymraeg eraill oedd wedi croesi'r ffigwr ar y pryd, a rhain gan artistiaid amlycaf y wlad - pobl fel Gorkys, Dafydd Iwan, Gwenno a Super Furry Animals.

Ond nid dyna'r penllanw i 'Gwenwyn', o bell ffordd! Erbyn mis Rhagfyr roedd Alffa wedi neidio uwchben yr enwau uchod i gyd, gan groesi miliwn ffrwd ar y platfform - y gân Gymraeg gyntaf i wneud hynny.

Mae 'na elfen o lwc i'r pethau yma wrth gwrs - roedd 'Gwenwyn' yn ffodus i gael ei chynnwys ar restrau chwarae dylanwadol, ac fe'i defnyddiwyd ar fideo hyrwyddo gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru gan gyrraedd mwy o glustiau. Ond mae dal angen i gân fod yn dda iawn i ddenu'r fath wrandawiad, ac ai lwc ydy o os ydy rhywbeth yn digwydd ddwywaith? Achos dyna'n union ddigwyddodd yng Ngorffennaf 2019 wrth i 'Pla' gan Alffa hefyd groesi miliwn ffrwd.

Roedd 'Gwenwyn' wedi ei chwarae dros 3 miliwn o weithiau ar Spotify erbyn hynny gyda llaw!

"O ran Gwenwyn, mae'n *surreal* dydi. Dwi'n meddwl erbyn rŵan na'r ffordd hawsaf i brosesu'r holl beth ydi *the right place at the right time*" meddai Dion.

"Mae 'na gymaint o ganeuon Cymraeg anhygoel allan yna does, dwi'n recno nath y sêr *alinio'r* cyfnod yna a ni oedd y rhai lwcus.

"I ddau hogyn ifanc roedd o'n *rollercoaster* o siwrne, un nawn ni fyth anghofio ac ella byth coelio ar brydiau."

Diymhongar iawn Dion, ond mae mwy iddi na hynny.

Canlyniad llwyddiant 'Gwenwyn', fel y datgelodd perchennog label Côsh, Yws Gwynedd, wrth **Y Selar** ar y pryd, oedd sicrhau bod modd i'r band ryddhau eu halbwm cyntaf ar y label.

"Mae llwyddiant 'Gwenwyn' yn arwyddocaol mewn toman o ffyrdd, yr un mwyaf sylfaenol i'r band a'r label yw bod yr incwm ddaw o hyn yn mynd i ariannu albwm cyfan i'r band" meddai Yws wrth **Y Selar** yn Rhagfyr 2018.

Rhyddid o'r Cysgodion Gwenwynig / Freedom from the Poisonous Shadows oedd enw'r albwm hwnnw a laniodd erbyn diwedd 2019, ac fe ddilynodd eu hail albwm, O'r Lludw / From Ashes, bum mlynedd yn ddiweddarach erbyn diwedd 2024.

## Gigio tramor

Mae'r band wedi parhau i gigio'n rheolaidd gan deithio i Ganada o berfformio yng ngŵyl NXNE yn Nhoronto, ac mae 'Disgrazia' yn gân a ysbrydolwyd gan eu profiad arbennig o berfformio yng Ngŵyl Morborock ym Morbegno, yr Eidal, yng nghysgod Monte Disgrazia. Roedden nhw nôl yn yr ŵyl honno fis Hydref, a bu iddynt hefyd deithio i'r Eidal ar gyfer gŵyl ieithoedd lleiafrifol SUNS Europ yn Udine, yr Eidal y mis canlynol.

Wedi degawd, does dim arafu i'w weld ar Alffa ac mae eu hawydd i ddal ati'n gyson yn parhau'n amlwg.

"Mae 10 mlynedd yn amser hir dydi? Ond mae'r angerdd na sydd gennym ni i chwarae dal i dyfu hyd heddiw" meddai Dion.

"Da ni erioed di meddwl rhoi gora iddi, felly masiwr bod ni'n disgwyl i'r band bara am byth rhywsut!

"Fyswn i'n nodi bod ni wastad wedi bod efo'r targed o rhyddhau albyms, a hynny'n gasgliad ohona nhw - felly ma raid bod ni'n disgwyl i betha bara am sbel."

"Dwi'n meddwl bod cyrraedd y 10 mlynedd yn dipyn o uchafbwynt yn ei hun.

"Mae'n hawdd dechrau rhestru gig y pafiliwn, chwarae yn ŵyl Geltaidd Lorient, NXNE Canada neu yn Morborock yr Eidal. Ond dwi dal i deimlo'n lwcus iawn i allu gwneud hyn a bod y gynulleidfa dal eisiau clywed mwy gennym ni.

"Felly, bach o bob dim ydi'r uchafbwynt - y gigs, y bobl a'r gynulleidfa 'da ni wedi cyfarfod a'r amser yn y stiwdio, mae'r cyswllt personol na efo pawb yn bwysig iawn i ni."

Mae'r angerdd yn glir i'w weld, a hir oes i hynny barhau. Ond tybed oes un ffactor posib arall sydd o bosib yn helpu egluro hiroedledd y band...sef y ffaith mai dim ond dau aelod ydyn nhw, a bod hynny'n gwneud logistics yn haws a'r potensial i ffraeo'n llai!

"Mae o bendant yn ffactor sy'n helpu efo stiwdio, ysgrifennu a trafeilio ag ati" cytuna Dion

"Ond yn fwy na hynny mae'r ddau ohono ni'n efo cysylltiad mor naturiol - alli dim cael trydydd aelod rhwng batman a robin na haha?

"Allai'm pwysleisio pa mor naturiol ydio i mond y ddau ohona ni fod yn Alffa.

"Dros y deg mlynedd 'da ni erioed wedi ystyried ychwanegu aelod parhaol arall. Dyma ydi Alffa, Dion a Sion!"

Hyd yma, does dim peryg bydd Omega i Alffa.

*Geiriau: Owain Schiavone*

# Blas Melysa'r Mis - Griff Lynch




Ag yntau'n rhyddhau cerddoriaeth unigol ers sawl blwyddyn bellach, mae'n anodd credu mai Blas Melysa'r Mis, a ryddhawyd fis Medi diwethaf, ydy albwm unigol cyntaf ffryntman Yr Ods. Rhyddhaodd dri albwm gyda'r band hwnnw, ac mae wedi bod yn rhyddhau senglau'n weddol rheolaidd ers ei sengl unigol gyntaf, 'Hir Oes i'r Wên' yn 2016. Mae wedi cydnabod bod albwm unigol ar y gweill ers degawd, ac mae'r canlyniad yn werth yr aros. Wrth ryddhau'r albwm, fe eglurodd Griff bod y syniad o 'symud' yn ganolog i'r casgliad felly dyma gyfle'r cerddor i egluro mwy am hynny gan symud trwy'r record, drac wrth drac...

**1. Gwlad Fy Nhyhead**
Fe wnes i recordio hon fel agoriad syml ffwrdd a hi, a gosod naws hollol gam-arweiniol i'r albwm. Syniad gwael wrth edrych yn ôl heddiw. Ond mae'r gân yn dychwelyd yn ddiweddarach mewn ffordd lawn, os ydach chi'n gneud hi mor bell a diwedd yr albwm.




**2. Cyntaf i'r Felin**
Roeddwn i eisiau i hon deimlo fel dechrau go iawn yr albwm, gyda'r llinynnau a'r harmoniau'n rhoi egni glân ar ôl yr agoriad tawel. Chydig o Krautrock.

**3. Fe Lyncodd**
Dechreuodd y gân mewn lle meddal a gwerinol. Dim ond gitâr acwstic. Fel sawl cân arall ar yr albwm i ddeud y gwir. Ond mi dyfodd i fod yn rhywbeth mwy hudolus ac 'eerie' yn y pen draw.

**4. Dyna Ni i'r Pant y Rhed y Dŵr**
Idiom dda, gweithio fel bachyn. Fyswn i wedi licio cael hi fel sengl ond doedd hi'm cweit yn iawn ar gyfer y rhediad.

**5. Same Old Show (gyda James Dean Bradfield)**
Cân sydd falla yn cwmpasu'r albwm. Themâu am fynd, dod, gadael, hiraeth, a'r holl deimladau cymhleth sy'n cyd-fynd efo rheina. Gweithio efo James yn amlwg yn un o uchafbwyntiau'r albwm.

**6. Blas Melysa'r Mis**
Cân am drio byw i'r funud, a chael dy ddal ar *dreadmill* ego. Neu weld eraill yn gwneud ella?

**7. Kombucha**
Dwi'n mwynhau'r diod. Dwi'n ofni mynd yn hŷn.


**TRAC WRTH DRAC**


**8. Look Out for Number One**
Llinell denau rhwng gofalu amdanoch chi'ch hun a bod yn hunanol dydi? Chydig bach o hwyl.

**9. Ti Sy'n Troi (gyda Lleuwen)**
Roedd gweithio efo Lleuwen yn dod â sensitifrwydd gwahanol i'r albwm. Un o'r artistiaid Cymraeg na sydd wir wedi creu argraff arna'i. Braint cael cyd-weithio.

**10. Os Ti'n Teimlo**
Do ni ddim yn siŵr os oedd hon am neud hi i'r albwm achos bron ei bod hi'n perthyn i gyfnod gwahanol. Ond roedd hi'n gweddu a ma hi'n un o'n hoff rai i chwara'n fyw felly dyma hi!

**11. Y Pethau Heb Eu Dweud**
Cyfuniad o'r ddwy gân gyntaf ar yr albwm yn dod yn ôl ella? Dwi'n licio dod a phethau ynghyd ar y diwedd efo pob dim. Teimlo fel atalnod llawn.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY




# Dyma dy le

## Diwrnodau agored 2026

- Dydd Sadwrn, 4 Gorffennaf
- Dydd Sadwrn, 10 Hydref
- Dydd Sadwrn, 7 Tachwedd

aber.ac.uk/diwrnodauagored



**Ar y brig yng Nghymru a Lloegr** am Brofiad Myfyrwyr

(Canllaw Prifysgolion Da 2025, The Times a'r Sunday Times)